**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1241
Ein cyf/Our ref JMSS/10671/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

5 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr ar 13 Rhagfyr lle gwnaethoch amlinellu'r ddeiseb gan Mike O'Brien yn gofyn i Lywodraeth Cymru gwrdd â chynulleidfa ehangach o ofalwyr di-dâl. Fy mhortffolio i sydd â'r cyfrifoldeb am ofalwyr di-dâl ac mae'n bleser gennyf ddweud fy mod yn parhau i groesawu barn gofalwyr di-dâl ac yn ceisio cwrdd â nhw lle bynnag y bo'n bosibl.

Ar 25 Tachwedd – Diwrnod Hawliau Gofalwyr – cefais gyfle i gwrdd yn rhithwir â dau grŵp o ofalwyr di-dâl, un o Abertawe ac un o Bowys. Yn garedig iawn, siaradodd y gofalwyr yn agored am eu hamgylchiadau a rhoi eu barn am yr hyn y gellir ei wella a'r prif faterion sydd wedi'u heffeithio yn ystod y pandemig.

O ran cyfleoedd mwy ffurfiol i ymgysylltu â gofalwyr, ers 2018 mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr wedi rhoi gwybodaeth a chyngor i weinidogion. Mae'n cyfarfod o leiaf pedair gwaith y flwyddyn gydag aelodau gan gynnwys cyrff statudol fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd, y Comisiynwyr annibynnol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau cenedlaethol i ofalwyr, sefydliadau pobl ifanc a swyddogion. Roedd gan y grŵp ran hanfodol yn y gwaith o'n helpu ni i ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a gyhoeddwyd ym mis Mawrth eleni, yn ogystal â'r Cynllun Cyflawni a lansiwyd yn ddiweddar.

Yn ogystal â Grŵp Cynghori'r Gweinidog, ers 2019 rydym wedi rhoi arian i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru gynnal grŵp Ymgysylltu â Gofalwyr sy'n ein galluogi i feithrin cysylltiadau uniongyrchol â gofalwyr di-dâl, a gweithwyr proffesiynol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae aelodau'r grŵp wedi gweithio gydag aelodau Grŵp Cynghori'r Gweinidog a swyddogion ar y strategaeth a'r cynllun cyflawni. Mae un grŵp penodol yn parhau i weithio gyda ni i gyd-gynhyrchu Siarter newydd i Ofalwyr. Ein nod yw lansio'r Siarter hwn ar ddechrau 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Yn dilyn trafodaethau diweddar ac adborth mae’r grŵp Ymgysylltu nawr yn cynnal adolygiad o’i gylch gwaith i sicrhau y gall feithrin cysylltiadau’n ehangach gyda gofalwyr wrth inni roi’r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni ar waith. Bydd hyn yn cynnwys ychwanegu gofalwyr ifanc i’r grŵp. Roedd yn bleser gennyf dderbyn yr argymhelliad yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ymgysylltiad mwy uniongyrchol â gofalwyr ifanc. Byddwn yn ceisio adeiladu ar waith blaenorol fel y sesiynau wythnos ymgysylltu â gofalwyr a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020. Roedd y sesiynau hyn yn edrych ar amryw o wahanol destunau, er enghraifft, cyfathrebu rhwng gofalwyr a staff gofal cymdeithasol, a’r hyn sy’n effeithio ar ofalwyr hŷn neu ofalwyr sy’n rhieni. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y fformat newydd ar gyfer y grŵp Ymgysylltu ar ddechrau 2022.

Yn dilyn llwyddiant yr Uwchgynhadledd deuddydd i Ofalwyr a gynhaliwyd ar ddechrau 2021, rydym wedi darparu cyllid drwy ein cynllun grantiau Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i gynnal Uwchgynhadledd 5 diwrnod i Ofalwyr dan ofal Gofalwyr Cymru ym mis Chwefror 2022. Bydd yr Uwchgynhadledd yn ddigwyddiad mwy eang na’r llynedd ac yn cynnwys cyfres o sesiynau trafod ar gyfer gofalwyr, gan orffen gyda sesiwn holi ac ateb gyda phanel arbenigol. Byddaf yn bresennol ac yn arsylwi yn y sesiwn hon. Rwyf hefyd wedi gofyn i swyddogion ddod o hyd i gyfleoedd addas i mi gwrdd unwaith eto gyda gofalwyr ifanc ar ddechrau 2022.

Rwy’n gwerthfawrogi bod Mike O’Brien wedi treulio amser yn creu’r ddeiseb hon, a’i ohebiaeth flaenorol ataf yn gofyn am sicrhau bod lleisiau gofalwyr di-dâl yn cael eu clywed. Hoffwn ei sicrhau ef, a’r pwyllgor, bod barn pob gofalwr yr un mor werthfawr a phwysig â’i gilydd, pa un a ydynt yn rhan o rwydwaith y llywodraeth neu rwydwaith ffurfiol arall neu beidio. Rwyf wedi gofyn i’m swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio i roi manylion cyswllt Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru iddo er mwyn iddo ef, a’r gofalwyr y mae’n eu cynrychioli, drafod y grŵp ymgysylltu a’r fframwaith newydd.

Yn olaf, gyda’r Cynllun Cyflawni newydd i Ofalwyr yn nodi amryw o gamau gweithredu ar gyfer y llywodraeth, y trydydd sector a’r sector cyhoeddus, mae’n hanfodol ein bod yn parhau i feithrin cysylltiadau yn rhagweithiol gyda gofalwyr i ddeall eu hanghenion yn well a’u cynnwys yn y broses o ganfod a datblygu datrysiadau.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services